CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL
A GYNHALIWYD AR 8 CHWEFROR 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gyswllt fideo ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Angharad Jones Leefe, fu'n cadeirio'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Angharad Jones Leefe, Arwel Lloyd, Miriam Moules a Barry Williams.

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Clerc y Dref a Rheolwr Cyllid

324. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alun Lenny.

325. Datgan buddiannau.

Dim

326. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.

Dim materion yn codi.

Adroddiad Clerc y Dref

327. Ceisiadau Cynllunio

(i) **PL/03383 -** Estyniad unllawr i'r drychiad cefn - 4, Y Ddôl, Caerfyrddin, SA31 2AZ. **DIM GWRTHWYNEBIAD**

(ii) **PL/02936 –** Creu mynedfa newydd i'r briffordd - Ffynonwen, 1 Manor Way, Llanllwch, Caerfyrddin, SA31 3RN. **DIM SYLW**

(iii) **PL/03443 -** Dymchwel yr adeilad storio presennol a gosod adeilad ffrâm ddur newydd yn ei le a gwaith cysylltiedig. Storio Tovali. Tir Oddi - Glan Yr Afon, 2 Y Morfa, Caerfyrddin**. CEFNOGWYD**

328. Materion Priffyrdd

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau am gynlluniau i gau dwy ffordd:

(i) Rhes Wood, Caerfyrddin ar gyfer atgyweiriadau brys gan Dŵr Cymru.
(ii) Cau wrth y groesfan i gerddwyr, Hen Heol Llansteffan am waith gan Network Rail

NODODD aelodau yr hysbysiadau.

329. Materion Trwyddedu

Dim

330. Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2 Mehefin 2022

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sut y gallai'r Cyngor Tref goffau'r jiwbilî arfaethedig. Ymgynghorwyd â chynghorau cyfagos ond nid oedd y Clerc wedi derbyn hysbysiad o unrhyw gynlluniau eto. Awgrymodd y Clerc y gellid cynnau goleufa, o bosib ym Mharc Caerfyrddin ar nos Iau 2 Mehefin 2022 i ddathlu'r jiwbilî. Cefnogodd y Cyng. Peter Hughes-Griffiths awgrym y Clerc a chynigiodd y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â hyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gareth John; roedd yr aelodau'n cytuno ac **ARGYMHELLWYD** y cynnig i'r Cyngor.

331. Polisi Rheoli Risg ac Asesiad Risg 2022/23

Eglurodd y Dirprwy Glerc y newidiadau a wnaed i'r asesiad risg ac ystyriodd yr aelodau y drafft diwygiedig. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch rhai o'r meysydd risg uwch a'r amserlen asesu risg, trafodwyd a chadarnhawyd y camau gweithredu arfaethedig. Croesawyd y fformat diwygiedig ac **ARGYMHELLWYD** y Polisi Rheoli Risg ac Asesiad Risg ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 y.h.